CYFARFOD Y CYNGOR BRO – COFNODION

Dydd Mawrth, 25 Gorffennaf 2023 – 7.00 yh

Neuadd Goffa, Llanfairpwll

Presennol:

Ward Braint – Dyfed Wyn Jones, Sara Williams, Bethan Williams, Ifor Gruffydd, Alun Jones.

Ward Gwyngyll – Medwyn Roberts, Gareth Cemlyn Jones, Meirion Jones, Gwynfor Parry, John Roberts.

Ymddiheuriadau – Stephen Edwards, Gillian Morris (Clerc), Robyn Williams, Sonia Williams, Dyfed Wyn Jones (Cynghorwyr Sir)

Yn absenoldeb y Cadeirydd, Stephen Edwards (gwyliau) a'r Clerc, Gillian Morris (salwch), cadeirwyd gan Meirion Jones, Is-gadeirydd, a fo a baratodd y Cofnodion drafft hyn.

PENDERFYNWYD

1. Ar ôl trafodaeth ac yn absenoldeb y Clerc teimlwyd nad oedd gwybodaeth ddigonol i symud ymlaen efo rhan fwyaf o'r Agenda, a phenderfynwyd gohirio'r cyfarfod am wythnos tan Nos Fawrth, 1 Awst am 7.00 yh. Yr unig eitem a drafodwyd oedd oriau Gwaith y Clerc.
2. Dywedwyd bod penderfyniad ynglyn ag oriau gwaith y Clerc wedi'i wneud yn ddiweddar a phwysleiswyd bod yna hyblygrwydd yn yr oriau ychwanegol. Yn dilyn trafodaeth gan gynnwys y sylw ei bod yn bwysig i'r cyhoedd allu mynychu Swyddfa'r Cyngor Bro yn ystod cyfnod penodol wythnosol a chael y cyfle i gyfarfod a thrafod efo'r Clerc. Byddai'r wybodaeth berthnasol hynny yn cael ei gyhoeddi ar Wefan y Cyngor Bro. Mater o drafodaeth efo'r Clerc bydai manylion y cyfnod wythnosol.
3. Adroddodd Gareth Cemlyn Jones bod yna gefndir cymhleth i'r defnydd o drydan yn y Neuadd Goffa gan gynnwys y Clwb Snwcer, a bod angen ymchwilio i'r mater ar fyrder ac yn fanwl a thrwyadl. Cytunwyd a phenderfynwyd hynny a diolchwyd yn fawr i Gareth am y wybodaeth ac am ei waith.

Cynhelir y Cyfarfod gohiriedig ar Nos Fawrth, 1 Awst am 7.00 yh yn y Neuadd Goffa